**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 14 Rhagfyr 2023 am 4.30 pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| A M Day | S M Jones | S Joy |
| J D McGettrick | F D O'Brien | R V Smith |

**Hefyd yn bresennol**
Robert Smith

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm ar gyfer Strategaeth Addysg |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: A Davis, B Hopkins and A J O'Connor
Aelod(au) Cyfetholedig: Beth Allender and Elizabeth Lee

---

105 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

106 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

107 **Cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2023 gan y panel hwn.

108 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

109 **Perfformiad Addysg Blynyddol yn erbyn blaenoriaethau a nodwyd (CMG) gan gynnwys argymhellion Arolygiad Estyn a'r diweddaraf am gynnydd a Sesiwn Holi ac Ateb Aelod y Cabinet**

Diolchodd y Panel i'r Cynghorydd Robert Smith (Aelod y Cabinet dros Ddysgu a Sgiliau), Helen Morgan Rees (Cyfarwyddwr Addysg), Kate Phillips (Pennaeth Dysgwyr sy'n Agored i Niwed) a Sarah Hughes (Strategaeth Addysg) am ddod i gyfarfod y Panel a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig a oedd yn darparu manylion ynghylch perfformiad Addysg yn erbyn blaenoriaethau a nodwyd. Roedd y drafodaeth yn cynnwys:

- Cynnydd gyda'r argymhellion a wnaed gan Arolygiad Estyn o Wasanaeth Addysg Llywodraeth Leol yn Abertawe yn 2022, gan gynnwys Addysg Ôl-16 a chryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym myd Addysg. Clywodd y Panel fod cynnydd da wedi'i wneud gyda'r ddau argymhelliad.
- Y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau allweddol - mae rhai o'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:
  - Strategaeth Cynhwysiad
  - Cynllun gweithredu presenoldeb
  - Gwreiddio gofynion diwygio Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
  - Adolygu darpariaeth arbenigol
  - Gwreiddio ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a lles emosiynol
  - Cefnogaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal
- Clywodd y Panel fod cynnydd da wedi'i wneud ar gyfer y rhan fwyaf o amcanion a bod camau wedi'u nodi i fynd i'r afael ag agweddau penodol y mae angen sylw arnynt.

Codwyd y materion/cwestiynau canlynol gan y Panel. Bydd crynodeb o farn y Panel am y cynnydd a wnaed a'r ymatebion i'w cwestiynau'n rhan o'r llythyr a gaiff ei anfon at Aelod y Cabinet yn dilyn yn cyfarfod.

- Roedd y Panel yn falch o weld cynnydd da gydag argymhellion Estyn a gofynnwyd a oedd cynllun gweithredu i gefnogi'r rhain hefyd ac a fyddai hyn yn cael ei gynnwys mewn diweddariad yn y dyfodol.
- Â phwy yr ymgynghorwyd yn y gwaith llais y dysgwr; a oedd hyn wedi cynnwys y 6ed Dosbarth neu bobl ifanc Ôl-16 er enghraifft, y rheini mewn addysg alwedigaethol.
- Ysgol arbennig newydd posib. A fydd teithio i'r ysgol newydd yn cael effaith ar y rheini sy'n ei ddefnyddio gan y bydd ar un safle yn hytrach na dau.
- Cymharu data. A fyddai'n fwy realistig cymharu data cyfredol â data 2019 yn hytrach na'r ychydig flynyddoedd diwethaf ar hyn o bryd. Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol edrych ar arwyddion cyrchfannau fel y disgyblion hynny sy'n cael eu dewis 1af neu 2il ddewis o brifysgol.
- Pa gefnogaeth a ddarperir i benaethiaid mewn perthynas ag arolygiadau ac yn ehangach.
- Pan fydd ysgol mewn mesurau arbennig neu'n cael ei monitro gan Estyn, sut mae'r awdurdod lleol yn monitro cynnydd.
- Sut mae'r ALl ac ysgolion yn cefnogi plant y lluoedd arfog.
- Canlyniadau PISA; oes gennym ganlyniadau ar gyfer ardal Abertawe.

Gofynnodd y panel i'r Aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr ddiolch i'r gyfarwyddiaeth Addysg ac ysgolion am eu gwaith rhagorol eleni.

110 **Adborth gan y Grwp Craffu Cynghorwyr Partneriaeth**

Rhoddodd y Cynghorydd Lyndon Jones ddiweddariad i'r panel ynghylch Craffu ar Partneriaeth a oedd yn cynnwys rhannu'r llythyr at Gadeirydd y Cyd-bwyllgor oddi wrth y grŵp cynghorwyr yn dilyn eu cyfarfod diwethaf ar 23 Hydref 2023.

Croesawodd y panel y diweddariad o ran Craffu ar Partneriaeth a theimlant ei bod yn ddefnyddiol cael copïau o'r llythyrau  Roedd un o'r materion a godwyd yn y llythyr yn ymwneud â'r hyfforddiant, y datblygiad a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Partneriaeth ac a oedd hyn ar gael i lywodraethwyr ysgol.

111 **Cynllun Gwaith 2023/2024**

Nodwyd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm

**Cadeirydd**